



Asesiad Effaith Iechyd

Enw'r penderfyniad: Rheoliadau Deddf Tybaco a Fêps 2026 (Hysbysiadau Oedran Gwerthu a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2026

Diben / nod y penderfyniad:

Ystyried effeithiau'r Rheoliadau ar iechyd.

Rhesymeg dros beidio â chynnal Asesiad Effaith Iechyd:

- h.y. Nid yw'r penderfyniad arfaethedig o natur strategol ynghylch sut y dylai Gweinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau.

Cyflwynodd Deddf Tybaco a Fêps 2026 oedran gwerthu newydd ar gyfer cynhyrchion tybaco ledled y DU. Nid oes oedran diogel i smygu ac felly mae'r polisi yn anelu at atal cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru (a'r DU yn fwy cyffredinol) rhag dechrau smygu yn y lle cyntaf. O 1 Ionawr 2027, bydd yn drosedd gwerthu cynhyrchion tybaco (yn ogystal â chynhyrchion smygu llysieuol a phapurau sigarêts) i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009. Mae hyn yn disodli'r oedran gwerthu blaenorol o 18 oed. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd oedran gwerthu yn codi'n raddol. Nod y polisi hwn yw creu 'cenedlaeth ddi-fwg', gan leihau'r defnydd o dybaco ym mhoblogaeth y DU dros amser.

Nid yw'r Rheoliadau o natur strategol am eu bod ond yn ymwneud â gofynion arwyddion i gyfleu'r gofynion ynglŷn â'r oedran gwerthu newydd ar gyfer cynhyrchion tybaco i ddefnyddwyr, a gwneud y diwygiadau canlyniadol angenrheidiol. Cafodd effaith lawn y polisi cenedlaeth ddi-fwg, sy'n anelu at leihau'r defnydd o dybaco ym mhoblogaeth y DU dros amser, ei gwerthuso mewn [Asesiad Effaith](#) yn ystod proses y Bil a chanfuwyd ei fod yn cael effaith fuddiol ar iechyd drwy leihau nifer y bobl sy'n smygu a thrwy hynny leihau'r [costau i unigolion, cymdeithas a systemau iechyd o ganlyniad i smygu](#).

Datganiad Sicrwydd y Dirprwy Gyfarwyddwr

Cadarnhaf drwy hyn fy mod i, Ed Wilson, wedi fy modloni nad yw'r penderfyniad arfaethedig y mae'r asesiad yn ymwneud ag ef o natur strategol ynghylch sut i arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru.